# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

## Cofnodion (LC5(3)-10-10)

**Dyddiad: 17 Mehefin 2010**
**Amser: 9.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mark Isherwood (Cadeirydd), Gogledd Cymru
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Jeff Cuthbert, Caerffili
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Bethan Davies, Clerc
Leanne Hatcher, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Gareth Pembridge, Cynghorydd Cyfreithiol
Sian Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Dywedodd y Cadeirydd bod ymddiheuriadau am absenoldeb wedi dod i law gan Andrew Davies ac Alun Davies. Croesawodd Jeff Cuthbert, a oedd yn dirprwyo ar ran Andrew Davies i'r cyfarfod, yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

### Eitem 2: Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

2.1 Nododd y Cadeirydd mai diben y cyfarfod oedd ystyried amserlen y Mesur arfaethedig, cytuno ar gwmpas gwaith craffu'r Pwyllgor ac ystyriaethau cychwynnol.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor ar gwmpas ei waith craffu ar y Mesur arfaethedig, i gyhoeddi galwad am dystiolaeth ysgrifenedig a chlywed tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr haf 2010.